Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol l. RHAGFYR, 1950. Rhif 12.

Nodiadau'r Golygydd.

Ein Cylchgrawn.

Y mae'r Undodwr yn credu mewn un Duw, dim un diafol a *thalu'n gyson am* Yr Ymofynnydd. Gofynnir i bawb gynorthwyo'r dosbarthwr a'r Swyddfa drwy dalu'n brydlon ar ddiwedd y flwyddyn. Wrth wneud byddwch yn sicrhau Blwyddyn Newydd Dda i'r hen gyfaill. Cawsom nifer o ddarllenwyr newydd eleni a thrwy hynny bu'n bosibl rhoi Ymofynnydd llawer mwy ei faint i chwi. Gellir cael cannoedd yn rhagor eto os ceir eich cydweithrediad. Yr wyf yn disgwyl yn daer am ateb i'm cylchlythyr i'r ysgrifenyddion ac fe argraffwyd ffurflen i'w danfon at y cyfeillion a adawodd yr hen gartref ond sydd eto yn cadw diddordeb yn yr enwad. Oni chaf ateb mae'r ffurflenni'n ddiwerth hollol.

Bernard Shaw.

Ni raid manylu am ffeithiau bywyd a gwaith Shaw yma; gwnaethpwyd hynny yn deilwng iawn ym mhrif bapurau'r wlad adeg ei farw. Talwn ein teyrnged syml drwy ddweud i ni golli athrylith fawr mewn llawer ystyr. Nid arloeswr cymdeithasol o'r hen ddull ydoedd, nid gŵr yn ceisio rhyw welliant bach fan hyn a fan draw. Yr oedd yn gas ganddo beth felly. Yn hytrach credai mewn goleuo gwerin a'i dysgu i ddeall eu hawliau a'u mynnu, nid fel cardod oddi ar law arall ond fel treftadaeth a iawnder dyn. A dyna'n syml i lawer ohonom un o sylfeini Teyrnas Dduw. Dyma rai o'i ddywediadau,

"Golyga rhyddid gyfrifoldeb. Dyna paham yr ofnir ef gan y mwyafrif."

"Gochelwch y dyn y mae ei Dduw yn yr awyr."

"Ymgryma'r anwar gerbron eilunod o bren a maen; y dyn gwâr gerbron eilunod o gig a gwaed."

Eisteddfodau a Gofiaf.

Gan Dan Jones, Mus. Bac., Pontypridd.

Yn Sir Gaerfyrddin y gweithiais i fy mhrentisiaeth fel beirniad canu, ac mewn cornel anghysbell iawn o'r Sir honno y cefais fy Eisteddfod bwysig gyntaf—"Eisteddfod fawreddog mewn pabell eang."

Teimlwn yn falch iawn o'r anrhydedd, ond ar ôl cyrraedd yno nid oedd pethau mor wych ag y tybiwn, a phylodd yr anrhydedd dipyn, oherwydd pedwar postyn, un ymhob cornel i'r llwyfan, tarpowlin ar y top, ac eithin crin wedi ei blethu yn gefn ac ochrau oedd y "Babell eang", a maes mawr agored ac awyr las oedd y gweddill.

Meddwn i wrth Tom, y cyfeilydd, "tipyn o demtasiwn i fatshen yw'r eithin crin yma". "O, aros di nes bo'i heno, fe fydd hwnna'n wenfflam", meddai Tom. Aeth cyfarfod y prynhawn ymlaen yn hwylus, ac erbyn yr hwyr yr oedd bechgyn Dyffryn Aman a Chross Hands wedi dylifo yno. Yng nghystadleuaeth yr Her Unawd yr oedd "Ifan Bengoch" yn canu "Is not his word like fire" o'r "Elijah" ; canwr tanllyd oedd Ifan bob amser, ond teimlwn ei fod yn fwy llachar nag arfer y diwrnod hwnnw, a chlywn ryw gracl oedd yn gwneud ei gân yn realistig iawn. Toc dyna rywun yn gweiddi,—"Y Brenin Mawr, ma'r tent ar dân", a hynny'n union pan gyrhaeddodd Ifan y geiriau, "For God is angry, angry with the wicked every day". Ffodd pawb am eu heinioes, a'r shock drosodd ymhen rhyw dair munud. Un o hiliogaeth y badell dun oedd y Piano, a'r cyfeilydd a finnau'n gobeithio y buasai'r Piano wedi cymryd rhan yn y goelcerth, ond er mawr siom i ni, yr oedd yn gwbl ddianaf, a chot fawr Tom, a fy hat innau wedi llosgi'n ulw. Ail gychwyn, pedwar polyn llwyd, dim top, na chefn, nag ochr i'r "Babell eang". Ifan yn canu'n ddigon fflat yr eildro, dim cracl o unlle i'w helpu. Y flwyddyn ddilynol—dim eithin crin, *corrugated iron* i gyd. Hen dro !

Dipyn ar ôl hynny galwyd fi i Lanbrynmair, "Eisteddfod Fawreddog" eto wrth gwrs, ac ar ôl cyrraedd yno'r noson cynt, dyma fi'n gofyn i'r ysgrifennydd, "Sut mae'r rhagolygon ?" "Gwych", meddai, mae pump o fandiau yma". "O, pwy sy'n beirniadu'r bandiau" ? "Y chi'n Tad", meddai. Tawelwch am ysbaid, "Pam, 'dachi ddim yn fodlon" ? "Ydw i—ydy-*nhw'n* fodlon yw'r cwestiwn, oherwydd dydw i ddim yn perthyn i Undeb y Bandiau Pres". "Ydan siwr, yn berffaith fodlon".

Yr oedd *March* yn y prynhawn a'r *Selection* yn y Neuadd yn yr hwyr, a threfnwyd i mi eistedd mewn cadair freichiau ar lofft yr Emporium i wylio, a gwrando ar y bandiau'n ymdeithio i lawr y

stryd, a chan mai rhyw Gadair swifl oedd hi, hawdd oedd troi ac edrych drwy ffenestr arall a'u gweld yn ymdeithio i lawr i Gwm Pennant ar y dde.

Yr oedd bocsed o sigârs ar y bwrdd at wasanaeth y beirniad a chan nad oeddwn wedi beirniadu Bandiau erioed o'r blaen, na byth wedyn, penderfynais wneud y fusnes mewn steil drwy smocio Hafana Sigar fawr, a gwneud fy hun yn gynddeiriog o sâl yn y proses.

Yna daeth y *Selection* yn yr hwyr—dim sigâr y tro hyn ; codi i roi beirniadaeth a dweud : "Dydw i ddim wedi beirniadu Bandiau 'rioed o'r blaen am reswm digon da, nid wyf yn perthyn i Undeb y Bandiau Pres". " 'Da ninnau ddim chwaith 'ngwasi", meddai llais o'r dyrfa, ac ar ôl deall mai *gang* o anundebwyr oeddem, teimlwn yn llawer mwy hy. Cyflwynais feirniadaeth o ryw fath, pawb yn ymddangos yn berffaith fodlon, a minnau'n diolch yn dawel am ddod allan o gornel gyfyng yn ddianaf.

Hynodrwydd yr Eisteddfod nesaf yw'r cwmni a gefais yno ; yn Nhrawsfynydd 'roedd hi, yn union ar ôl y Rhyfel Mawr cyntaf. Llew Tegid oedd yr Arweinydd, ac er fod gennym arweinyddion campus heddiw, credaf mai ef oedd yr anwylaf a'r gorau ohonynt i gyd. Gofynnodd i mi'r noson cynt : "Fuoch chi yng nghartre Hedd Wyn erioed" ? "Naddo wir, ond mi garwn fynd". "O'r gorau, fe awn ni 'nawr". Cyrraedd yno fin hwyr ym mis Mai, curo wrth y drws a hen wraig ei fam yn ein cyfarch. "Mae'n ddrwg gen i frifo'ch teimladau, ond fe gare 'nghyfaill sy'n hanner addoli Hedd Wyn weld y Gadair Ddu". Eisteddais ynddi tra'r adroddai Llew Tegid "Y Delyn Fud" a darnau eraill o'i waith, a'r hen wraig yn wylo wrth y drws. 'Roeddwn i yn Eisteddfod Birkenhead ddydd y Cadeirio ac er mor llethol yr atgof hwnnw, teimlwn fod y cyffyrddiad personol hyn wedi fy nwyn yn nes at y drasiedi fawr, a rhoddi i mi atgo' ddwysaf a thyneraf fy mywyd.

Mewn Eisteddfod yn Abertileri y cyfarfyddais a Syr Henry Coward gyntaf. Cyfrannodd y gŵr mawr hwnnw fwy at ddyrchafu safon canu corawl Prydain na neb arall. Yr oedd yno dri beirniad, ac yng nghystadleuaeth y Corau Meibion, awgrymodd fod y tri ohonom yn ysgrifennu beirniadaeth bersonol heb ymgynghori â'n gilydd hyd at y diwedd. Yr oeddem ein tri yn unfryd unfarn ar y cyntaf, ond nid felly yr ail. Yr oedd y côr oedd yn ail gan Dr. Coward a Mathew Davies yn drydydd gennyf i. "Beth am eich rhesymau" ? meddai, ac ar ôl darllen yr hyn oedd gennyf—"Digon rhesymol yn wir", meddai, "Ond y mwyafrif pia' hi heddiw, dowch i fyny gyda mi", a dywedodd yr hanes i gyd wrth y gynulleidfa yn gywir fel y digwyddodd.

Boneddigeiddrwydd y gŵr mawr hwnnw tuag at feirniad ifanc dibrofiad a apeliodd ataf. Arwyddodd y *badge* a'i law ei hun—"Henry Coward, with warm regards," a chedwir hwnnw'n barchus yn ei lyfr campus : *Choral Technique.*

Yna'n ôl i Lanwrda yn Sir Gaerfyrddin i Eisteddfod gynhaliwyd nos Sadwrn cyn i'r rhyfel mawr diwethaf dorri allan. Aeth yn hwyr iawn, fel arfer, a'r heddgeidwaid yn gorchymyn "black out" perffaith yn y Babell, dim ond cannwyll i'r Cyfeilydd, a chysgod dros honno.

Yr oedd un-ar-bymtheg yn cystadlu ar yr Her Unawd, a minnau'n gwrando yn y tywyllwch mawr heb ysgrifennu 'run gair. Traddodi beirniadaeth yn y tywyllwch gan ofyn i'r cantorion pwy oedd y nesaf, a beth oedd teitl y gân, yna 'doedd dim anhawster o gwbl, a chofiaf mai Elizabeth Evans a ddaeth yn enwog ar y Radio ar ôl hynny a enillodd drwy ganu "Ocean, thou mighty monster".

Yna, at y Prif ddarn Corawl, "Wedi'r Storm", anthem fechan a gyfansoddwyd gennyf yn y ffosydd yn Ffrainc yn union cyn i mi gael fy nghlwyfo, ac ar ôl dod adre cyhoeddwyd hi i ddathlu Heddwch, a'r eironi mawr oedd canu peth felly ar drothwy rhyfel arall.

Beirniadu yn y tywyllwch eto ar saith o gorau, heb yr un gair wedi ei ysgrifennu, a chredaf yn siwr mai dyna'r Eisteddfod hynotaf ohonynt i gyd.

[Mae pob Eisteddfodwr drwy Gymru yn adnabod Dan Jones, Beirniad cerdd enwog, ac yr ydym yn ddiolchgar iawn iddo am y sgwrs ddifyr yma a ddarlledwyd ganddo ryw dro—*Golygydd*].

Atgofion Sion Ifan Sion.

(*Parhad*).

POSIS AR HIRNOS GAEAF.

Nid oedd dim yn well gen i na chael bwrw noswaith yn Tŷ Whith gyda Siân a Twmi, mamgu a thadcu Dan fy nghyfaill ysgol. Yno 'roedd crynhoad o 'fois y nos,' fel yr oeddem yn ei galw, yn gyson bron bob nos a'r cwmni yn ddifyr a llawen iawn adaeg Calangaeaf. Yr oedd gan yr hen Ddan stôr o bosis ac ers rhai dyddiau yr wyf wedi bod yn treio cofio rhai o honyn nhw er mwyn ei rhoi ar gof a chadw. Clywais rai cannoedd ond dim ond ychydig sydd wedi aros. [*Er mwyn creu mwy o ddiddordeb i'r darllenwyr yr wyf wedi rhoi rhif wrth bob pôs a rhoi'r ateb ar ddiwedd 'Newyddion yr Enwad' yn lle ar ddiwedd pob pâs fel gyda Siân.*—Gol.].

1 Fe anwyd plentyn yn Llangan
Nid mab ei dad, nid mab ei fam,
Nid mab i Dduw, nid mab i ddyn,
Ond plentyn prydferth fel pob un. Beth oedd ?

2 Beth yw untwll a chantwll a dim un twll trwyddi ?

3 Cist fach yng ngwaelod y nant
Agorith un ni chauith cant.

4 Beth sydd yn canu wrth ei grogi ?

5 Rhyw ddiwarnod mi es drwy'r coed
Gweles y peth rhyfedda weles i erioed
Yn y prynhawn yn weddol gynnar
'Roedd dau bump yn ymlid pedwar.

6 Ladi fach den den
Gŵn du a dim hem ;
Bola carreg a choes bren.

7 Naw hen ŵr a naw hen ŵr a naw cot fawr am bob hen ŵr
A naw poced ym mhob cot fowr a naw coden yn mhob poced
A naw cath fowr ym mhob coden a naw cath fach ym mhob cath fowr.
Sawl cath fach oedd yna ?

8 Dywedodd y gof wrth yr amaethwr mae ei delerau pedoli oedd dimau am yr hoelen gyntaf a dyblu am bob un o'r fan hynny ymlaen. Dimau am y gyntaf, ceiniog am yr ail, dwy geiniog am y drydydd, etc. Petai wyth hoelen i bob pedol, tua faint gostiai pedoli ceffyl ?

9 Beth aiff i Lundain ar i phen ?

10 Beth sydd yn yr afon ar le sych ?

11 Mi gladdes hen gyfeilles
Oedd annwyl iawn gen i,
Mi roes ei chorff i orffwys
Ym mhridd y ddaear ddu.
Mae'n rhyfedd gen i feddwl
Y dydd cawn eto gwrdd,
I hyfryd fwyn gydwledda
A hithau ar y bwrdd. Beth yw hi ?

12 Yr oedd afal ar goeden a thri o fechgyn yn ceisio amdano, a chafodd bob un afal.

13 Beth â yn gynt ar ôl torri ei choes.

14 Beth yw corff ac enaid yn un pen, a chorff yn y pen arall, a marw yn y canol ?

15 Beth ydyw deutroed ar drithroed yn crafu troed ; daeth pedwartroed heibio ac mi gipiodd y droed oddi ar y ddeutroed ; yna taflodd y ddeutroed y trithroed ar ôl y pedwartroed nes gollyngodd e'r droed.

16 Ladi ar ben y brynie
Yn gwisgo cap a lasie ;
A modrwy aur ar ben bob bys
A godre'i chrys yn garpie ?

17 Beth sydd a'i deupen yn y dŵr a'i chanol yn sych ?

18 Beth yw plant bach yn marw o henaint, a'u tad a'u mam yn bobl ifainc ?

19 Beth â yn fwy wrth ei naddu ?

20 Beth ydyw pren gwyn ac arno ddeuddeg cangen, a phedair nyth ar bob cangen a saith wy ym mhob nyth a dim dau ohonynt yr un enw.

21 Tair troed heb gerdded
Dau glust heb glywed,
A cheg fawr agored
Heb fwyta dim.

Hen ddifyrrwch digon diniwed oedd ein difyrrwch ni. Ond nid oes neb ffordd hyn yn diddori mewn posis bellach ; yr unig ddiddordeb sydd ganddynt yw gamblo ac yfed. Ac yn yr unigedd pell yma carwn gael un noswaith eto ar yr hen aelwyd yn Tŷ Whith a'r dychmygion yma yn cadw un ar ôl y llall i feddwl yn ddiwyd.

(*I Barhau*).

Hen Atgofion am Llwynrhydowen.

(*Parhad o Rifyn Mehefin*).

Gan J. C. Jones, Derwydd.

Buddiol fydd hanes athrawon a blaenoriaid yr Ysgol Sul dan weinidogaeth y Parch. William James, B.A. a'r Parch. W. J. Davies o'r blynyddoedd 1887 ymlaen. Tua'r blynyddoedd hyn yr oedd poblogaeth fawr ei rhif drwy holl ddyffryn Clettwr. Teuluoedd oedd yn codi eu plant i garu crefydd a'r capel y mynychent yn gyson. Nid yn unig yr oeddynt yn danfon eu plant i'r Ysgol Sul a'r gwasanaeth, ond byddent yn dyfod gyda hwynt yn lled gyson. Yr oedd teulu Rhydyfene yn blant ffyddlon ac yn ganwyr da i gyd. Yr ieuengaf ohonynt yw'r Parch. Simon Jones, B.A. Hefyd teulu Gelliaur yn alluog a cherddorol, a thrwy ddylanwad a phresenoldeb cyson y teuluoedd hyn, hawdd oedd i eraill gydweithio, a bu llwyddiant mawr ar yr eglwys am flynyddoedd.

Nid yn unig yr Ysgol Sul oedd yn llewyrchus, ond hefyd yr Ysgol Gân. Yr amser yma 'roedd plant ysgol Pontshaen yn cael addysg Solffa yn gyson, a phawb o 12 oed i fyny yn gallu darllen Solffa, wedi ei haddysgu gan ei hathraw (y teacher), ac ef eto yn gôr feistr y Llwyn. Hefyd yr oedd Côr mawr y Llwyn dan arweiniad fy nhad, yr hwn a fu yn flaenor y gân am 46 mlynedd. Yr oedd yn hyddysg iawn yn yr Hen Nodiant, ac yn ddisgybl mawr o'r "Creal y Corau", "Cronicl y Cerddor", a'r "Cerddor Cymreig". Cefais innau lawer o hyfforddiant ynddynt hefyd. Ymneillduodd yn 1888, ac etholwyd ei fab yn olynydd iddo, ac er yn ieuanc iawn, cafodd bob help, a daeth llewyrch mawr i'r eglwys am flynyddoedd.

Dan arolygiaeth y prif athraw, David Thomas (Dafo Siop, fel yr adwaener ef), 'roedd athrawon eraill sef David Charles, Pencwarre, a'i blant Evan a Mari Charles, David a William Evans, Penrhiw, Ben Jones, Llwyn ; Anne Jones, Waun ; Margaret Thomas, Derlwyn a Evan a Mari Davies, brawd a chwaer i'r diweddar Barch. William Davies, Cribyn. Byddai ef yn dod yn achlysurol. Mor fawr oedd selogrwydd y bobl hyn fel y cerddent ddeuddeg milltir (ddwywaith) bob Sul i Hen Gapel y Llwyn. Thomas Humphreys, Penlôn Esger oedd yn athro drosom ni fechgyn deuddeg oed i fyny, ac ef a gofiaf yn bennaf. Cyfaill plant yr ardal oedd ef. Dyn syml, mawr ei wybodaeth grefyddol, bardd rhwydd ei odl, cymeriad glân a christion goleuedig. Wele ychydig benillion o farwnad goffadwriaethol amdano yn Eisteddfod y Llwyn (gan Ben Davies, Ffynnon Saer).

Thomas Humphreys, Penlôn Esger
Ar ei ôl pwy na rydd lef?
Y mae rhyw anwyldeb tyner
Fyth ynglŷn a'i hanes ef;
Prin ei enwi sydd yn ddigon
I adfywio tannau gwyw
Hiraeth obry yn y galon,
Ac i ddeffro i'w gwaelodion
Alar gwynion awen fyw.

Yn Undodwr egwyddorol
A'i ddaliadau yn ddilen
Ond yn iach o'r culni sectol
Sydd yn duo Cymru Wen;
Cristion gloyw ei gymeriad,
Gloyw, gloyw fel y wawr—
Ei ddilychwin, gywir rodiad
Yn anrhydedd fyth i'r enwad
Oedd mor hoff i'w enaid mawr.

Diarhebol ei ffyddlondeb
Gyda'r "brodyr yn y Llwyn",
Iddynt 'roedd ei bresenoldeb
Fel yn llawn eneidiol swyn:
Byth ni fedrai bâr gauafol
Na chynddaredd storom gref
Mwy na gwenau hafddydd swynol,
Godi rhwystrau anorchfygol
I'w ffyddlondeb selog ef.

Colled fawr arall a fu marwolaeth gynnar y Parch. W. E. Davies, Gweinidog y Cribyn. Bu farw yn nhŷ ei fodryb, Miss Anne Thomas, Derlwyn, Capel Dewi yn 34 oed. Mae'r cwbl o'r teulu yn gorwedd ym mynwent Capel Newydd y Llwyn. Yr oedd yn ysgolhaig goleuedig, ac yn brif Athro Ysgol Ramadegol Llanybydder. Wele emyn a gyfansoddodd y noson cyn ei farwolaeth.

Y NOS OLAF.

Un nos y sydd—nos angau yw
A'n dwg o'r byd i'r nef i fyw,
Tywyllwch bedd a dyrr yn wawr
Dros fryniau'r wlad sydd hwnt i'r llawr.

Ei mantell ddu dros f'enaid prudd,
Am ennyd fer, taenedig sydd ;
Ond credu'r wyf mai buan iawn
Yr egyr arnaf hafddydd llawn.

Wrth deimlo grym 'r Iorddonen ddu
Daw braw i'm bron ac ofnau lu
O f'enaid gwan ! rho'th bwys ar Dad
A rydd it' help yn ddinacad.

Ceir sôn am hen arwyr Dyffryn Clettwr y tro nesaf.

Y Mudiad Undodaidd yn Aberystwyth.

Cyn myned ymlaen i sôn am ein gweinidog nesaf teimlaf hi yn ddyledswydd arnaf i ddweud ychydig eiriau am un a ddaeth yma yn ystod gweinidogaeth y Parch. John Evans. Dywedaf ychydig nid am mai ychydig y mae ef yn haeddu ond am mai dim ond ychydig, yn anffodus, a wn i amdano. Brodor o Firmingham yw Mr. George Richardson, ac fel Mr. Grindley, treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd gweithgar yng ngwasanaeth y Llywodraeth—tua hanner can mlynedd, fel y deallaf. Wedi ymddeol o'i swydd daeth ef a'i briod, a oedd yn wanaidd ei hiechyd, a'i frawd, sydd yn ffaeledig iawn, i fyw i Aberystwyth tua'r flwyddyn 1938. Er gwaethaf yr holl anfanteision hyn bu Mr. Richardson yn ffyddlon iawn i'r Achos Bach ac nid byth y gwelid ei le yn wag yng ngwasanaeth y bore heb fod yna ryw reswm pendant dros hynny, a chofier fod ganddo tua milltir i gerdded i'r Capel. Pan gymrwyd ei briod yn wael iawn gorfu arnynt symud i fyw at eu merch, rhyw filltir ymhellach eto o ganol y dref, a gorfu ar Mr. Richardson i roi fyny mynychu'r gwasanaeth, yn enwedig am fod gofal ei frawd wedi syrthio yn gyfangwbl arno ef erbyn hyn. Mae yn awr dros 80 mlwydd oed, ac er nad yw ei glyw yr hyn oedd, a'i gof yn dechrau pallu gellir ei weld yn y dref yn weddol aml o hyd. Dymunaf iddo lawer blwyddyn eto.

Wedi gadael o'r Parch. John Evans ar yr 22ain o Fehefin, 1941 buom am ychydig dros dri mis heb weinidog. Yn ystod yr amser yma cariwyd y gwasanaethau ymlaen yn bennaf gan ddau fyfyriwr a oedd newydd orffen eu cwrs diwinyddol, un yn y Coleg Presbyteraidd yng Nghaerfyrddin, a'r llall yn y Coleg Undodaidd ym Manceinion, sef Mr. D. Jacob Davies a Mr. Aubrey J. Martin, B.A., fel ag yr oeddynt pryd hynny. Cawsom help llaw gan ddau o'n gweinidogion hefyd—bu'r Parch. S. E. Bowen, Alltyblaca yma

am ddau Sul, a'r Parch. T. Oswald Williams, M.A., Llanbedr am un. Bu ein cyfaill ffyddlon, Mr. Sydney Herbert yn gwasanaethu am un Sul hefyd.

Mr. Jacob Davies fu yn pregethu y pedwar Sul cyntaf o'r *interregnum* ac nid hir y buom cyn cael ar ddeall fod peth chwant arno ddod lan i Goleg y Brifysgol yma er mwyn gweithio am ei radd. Os oedd hyn yn wir neu yn debyg o ddod yn wir, gwelodd rhai ohonom gyfle da i gael gweinidog newydd a hynny cyn pen hir. Felly, wedi ymgynghori a Phrifathro'r Coleg Presbyteraidd ar y pryd, sef Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., penderfynwyd rhoi galwad i Mr. Jacob Davies i ddod i'n bugeilio, ac addawodd yntau roi ateb pendant inni ymhen rhyw fis neu ddau. Pan ddaeth yr ateb cawsom, fel y gobeithiem, ei fod yn gadarnhaol, ac felly gwnaed trefniadau i gael Cwrdd Sefydlu'r gweinidog ieuanc tua dechrau mis Hydref. Y dydd a ddewiswyd oedd prynhawn Sadwrn, y 4ydd o Hydref 1941.

Cafwyd benthyg parod Capel yr Annibynwyr Cymraeg i gynnal y cyfarfod, dewiswyd y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Llandysul i roi'r siars i'r gweinidog newydd a Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc. i roi'r siars i'r gynulleidfa, a gwnaeth y ddau eu gwaith yn ardderchog. Anfonwyd gair am y Cwrdd Sefydlu at holl eglwysi Undodaidd y Sir (trwy eu gweinidogion), gyda chroeso cynnes i fod yn bresennol. Fel canlyniad daeth cynulliad da ynghyd, yn gymaint felly fel yr oedd Capel eang yr Annibynwyr yn gysurus o lawn ar y prynhawn apwyntiedig.

Ac yn awr hwyrach y bydd ychydig fanylion am ein gweinidog newydd yn dderbyniol (yn enwedig i'r rhai na ŵyr mai efe yw golygydd presennol yr Ymofynnydd). Mab ieuengaf Mr. a Mrs. Davies, Penlôn, Tregroes, Llandysul yw'r Parch. D. Jacob Davies, B.A., lle y ganed ef ar y 5ed o Fedi, 1916. Tyddyn bychan yw Penlôn, ond prif waith ei dad yw saer maen gyda thipyn o waith fferm, pan fo gwaith mashwn yn slac debygwn. Gor-ŵyr yw i Ben Jones, un o'r ffermwyr a drowyd allan wedi etholiad 1868; hanna ei fam hefyd o hen linach Undodaidd James Herbert, awdur "Gwêl uwchlaw canllawiau amser". Cafodd Jacob, fel y geilw ei gyfeillion ef, ei addysg foreol yn Ysgol Elfennol, Tregroes, ac Ysgol Sir, Llandysul, lle yn 1935 yr enillodd yr hawl i allu astudio yn un o golegau Prifysgol Cymru (neu *Matriculation*, fel dywed y Sais). Blwyddyn eto yn Llandysul a blwyddyn arall gartref yn helpu ei dad ac yn astudio ei hun. Clywais ef yn dweud mai wrth bwyntio *arch* Eglwys Tregroes yn ystod y flwyddyn y bu gartref y penderfynodd fynd yn weinidog gyda'r Undodiaid. Cafodd ei dderbyn i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin tua mis Medi 1937, ac fel rhan o gwrs y Coleg yma treuliodd y coleg-dymor 1937—38 yn y Coleg Cenedlaethol yn Abertawe. Tra yn y ddau Goleg yma enillodd amryw wobrwyon ac yn enwedig un mewn siarad cy-

hoeddus (*elocution*) allan o holl Goleg Caerfyrddin. Wedi dod lan yma atom ni yn weinidog yn 1941 ymaelododd yn y Coleg ger y Lli a bu yno am bedair blynedd. Yn ystod yr amser hwn bu yn astudio amryw bynciau, ac yn enwedig Cymraeg, Athroniaeth, Addysg a'r Gyfraith, enillodd y radd o B.A. yn 1944 a'r flwyddyn ddilynol bu yn dechrau paratoi am y radd o M.A. Tra yn y Coleg yma bu'n dal amryw swyddi, e.e., Llywydd y Gymdeithas Geltaidd, Llywydd Undeb y Myfyrwyr (S.R.C.), a golygydd y *Wawr Newydd*. Fel y gŵyr pawb sy'n dilyn y radio yn weddol gyson mae Jacob yn ddyn aml-ochrog iawn, ond tebyg na ŵyr pawb o'n darllenwyr ei fod yn aelod o gwmni drama C.E.M.A. neu "Chwaryddion y Genhinen" ar ei daith gyntaf trwy Gymru yn 1941—42, nac ychwaith ei fod wedi cael cynnig *contract* o arian mawr gan gwmni ffilmiau Ealing yn 1943, ac wedi ei wrthod !

Santa Clos.

Os blynydde 'nawr 'rwy'n teimlo'n diharpo i gyd man fyddai'n clwed dynion yn dachre siarad o biti Nadolig. A ma'r mynwod, druan a nhw, yn mynd yn stirics gwyllt am wthonse cyn 'ny. A phan welwch chi Defi John ni yn cered rown i'r tŷ a rhw hen wên dwp reit ar i wmed e, ichi'n gwbod fod Nadolig ddim ymhell. Wedyn y peth nesa yw basâr Nadolig y capel a dyna ddachre'r blingo. Own i ddim yn golygu prynu dim byd leni, dim ond dangos y mhig, ys gwedon ni. Es miwn a fe dynnes y nghap a'i roi ar y peg fanny, ond wir i chi cyn i fi weud thenciw odd rhywun wedi werthu e am dair, a gorffod i fi dalu whech am i gal e nôl. Wi ddim sosialist ond dyna beth wi'n alw'n *gapi*talism !

A unwaith bo'r basar heibio inni yn i chanol i wedyn—mae'n resins a siwet o ddachre un dwarnod i'r llall a Mari'n cered rownd iddi nhw yn whys drabwd i gyd. Ac am wthnos gyfan ma pawb a'i tafode mas fel cocls yn dŵr a halen yn lapo rhaffe o stamps ceinoge. Heb weud gair o gelwy odd y nhafod i mas fel ci'n llifedi. Ta rhywun yn rhoi telyn o gorden am y ngwddwg i a'n hongian i dan y lofft fe fyddwn gistled ffleicatsher a dim.

Os nagodd hynny'n ddigon dyma fe Defi John yn dachre cân newy spon leni. "Fi ise gweld Santa Clos, ochodin." A mynte Mari o'r diwedd, ma raid i'r crwt gal gweld Santa Clos os yw e'n moyn w, sach bo ni'n byw yn y wlad." A wir i chi er mwyn câl diwedd ar figitian penefer yr hen filatw, fe benderfynes brynu dillad Santa Clôs a gwisgo lan fel yr hen ŵr nos cyn Nadolig. Odd dim hen ffiloreg felna i blancrinion pan own i'n grwt, orange a bonclust

own i'n gal stil bore Nadolig. Ta beth i chi fe es lawr i siop yn y dre, lle ma nhw'n gwerthu'r bechingalw i gyd a dyna lle odd rhw ddol glwte o groten yn sefyll tu ôl i'r cownter. Odd hi'n sharad yn swch simp reit trwy danne, fel se sip fastener ar i cheg hi, a ches i mo'r pethe iawn nes i fi sarnu lot o Sisneg. A gatre a fi.

Wel, pan ddoith nos cyn Nadolig, dyma fi'n stwffo'n hunan miwn i'r trugaredde yn glogyn a sache a whisgers a chwbwl, a welsoch chi shwt gleme a bwldagu yn y'ch byw. Wi shwt stwffwl tew, chi'n gweld, a'r dillad wedi gneud i rw hen ddyn bach tene pin streip. Ond bant a fi lan i'r stâr, a ofan bob munud y byswn i yn dalgwmpo a dihuno Defi John. Es heibio'r gwely heb adlach o sŵn a draw at y shime, gan feddwl galw arno fe fanny a rhoi syrpreis fach iddo fe. Ond pan own i wedi seto lawr ar y ffender ar y nghwrcwd yn y tywyllwch, yn barod i weiddi arno fe, pwy weles i'n dod mas o dwll y shime ond Defi John os gwelwch yn dda.

"Helo Dadi", medde fe'n jocôs reit, "odi chi yn dod i helpu fi i whilo Santa Clôs".

Fe gas whirell ym môn i glust nes odd e'n cwrlo. A o hyn mas, fydd dim hen ffolal yn tŷ ni amser Nadolig. Fe fyddwn ni yn mynd nôl at yr hen arfer flwyddyn nesa . . . orange a bonclust, a fydd na heddwch wedyn.

(Allan o "PLWM PWDIN" a rhagor o Ystorïau Digri gan D. Jacob Davies, Gwasg Gomer, 1/6)

Swyddogaeth Gwraig mewn Bywyd Cyhoeddus.

Parhad o Rifyn Hydref.

Mae llawer o gynghorau ein gwlad yn ymwneud â phethau sydd yn dwyn perthynas agos a chysur llawer o deuluoedd y wlad. Mae yma ddeddfau yn bod yn ymwneud a gwragedd sydd oblegid afiechyd wedi cael eu darostwng i amgylchiadau isel, ac mewn angen am gymorth. Credwn fod lle i'r wraig ar y cynghorau hyn, a'i bod yn fwy cymwys na dyn i weinyddu y cymorth sydd yn eisiau.

Y rheswm olaf a nodwn dros roddi lle i wragedd yn ngweinyddiad Llywodraeth y Wlad yw y byddai y gwragedd yn anghefnogol i ryfel. Gwrthwynebai y gwragedd ryfel am ddau reswm. Yn gyntaf gwrthwynebant ryfel am mai iddynt hwy y mae rhyfel yn costi fwyaf. Hwy sydd yn cyflenwi'r wlad a defnyddiau pwysicaf rhyfel, sef a bechgyn ag y gwneir milwyr ohonynt. A gymaint mae hynny yn gosti. Y gwragedd sydd yn talu'r draul gyntaf yng nglŷn â dwyn y bechgyn hyn i'r byd. Gymaint a ddioddefant wrth roddi genedigaeth i'r bechgyn hyn. Gymaint eu llafur wrth eu magu. Mae'r boen a'r dioddefaint wrth eu dwyn i'r byd a'u llafur enfawr wrth eu magu, a'r aberthau lluosog a dirif a wnant er eu mwyn yn gymaint fel y mae eu siomedigaeth yn ormod ei dioddef pan welant fywydau y bechgyn hyn yn cael eu haberthu mewn rhyfel nad yw yn ddim ond olion yr oesau barbariadd. Yn ddiau, pe byddai i wragedd gael mwy o lais yn llywodraeth eu gwlad y byddai i ryfel ddod i derfyn buan. Golygai hynny gynnydd mawr yng ngwareiddiad y byd.

Byddai i wragedd wrthwynebu rhyfel am ei fod yn achos cymaint o wastraff. Fe gostiodd y rhyfel diweddaf mewn arian, heb sôn am fywydau, £9590,000,000. Pwy all amgyffred maint y swm. Mae yn ormod i mi ei amgyffred. Gofynwn i wrywod, a ydyw eu gwragedd yn trefnu pethau yn eu cartref mor wael a hyn? "Ond" meddai rhywun, "ni all gwragedd drefnu amgylchiadau gwlad". Beth mae llywodraethu gwlad yn olygu, ond *National Housekeeping*? A oes unrhyw wraig o gymeriad parchus yn cadw ei thŷ mor anrhrefnus ag oedd gwledydd y byd yn cael eu cadw adeg y rhyfel diweddaf. Os yw dyn yn rhagori ar y wraig mewn rhyw bethau, ac os yw y wraig yn rhagori ar ddyn mewn pethau eraill, yr hyn sydd yn eisiau yw cael y gorau mewn dyn a gwraig i lywodraethu amgylchiadau gwledydd y byd.

Wrthoch chwi wragedd dywedwn, parchwch eich natur fel bodau dynol. Cofiwch eich bod yn fodau dynol, ac fod gennych, oblegid hynny, yr un hawliau a dyn. Parchwch eich galluoedd. Yr ydych wedi cael eich cynnysgaeddu gan Dduw â galluoedd mawr, a diben rhoddiad y galluoedd hyn i chwi yw i chwi eu defnyddio.

Wrthoch chwi ddynion dywedwn, parchwch y fenyw ag ydych wedi wneud yn wraig eich mynwes. Heb wneud hynny ni fyddwch yn ymddwyn yn deilwng tuag ati.

Pan gaiff gwragedd eu lle priodol ym mywyd cyhoeddus y byd, gellir disgwyl gwell sefyllfa ar bethau mewn cymdeithas, yn yr eglwys, ac yn y wladwriaeth.

Gohebiaethau.

(*Gwahoddir llythyrau byr ar bynciau'r dydd*).

LLYTHYR AGORED I J. RAYMOND HODKINSON, B.Sc.

Annwyl Gymrawd,—

Mawr ddiolch i chwi am eich llythyr diddorol yn rhifyn Hydref o'r Ymofynnydd. Llongyfarchiadau gwresog, hefyd, ar eich buddugoliaeth gyntaf ym meistrolaeth o'r iaith Gymraeg. Nid ar unwaith y dysgir heniaith y Cymry ond yr ydych eisoes wedi dod dros y prif rwystrau. Gydag ymarferiad a darllen daw'r dasg yn ysgafnach o hyd. Llwyddodd aml i gyfaill o Sais i mi i feistroli'r iaith Gymraeg. Daliwch ati a chyn bo hir, disgwyliwn weld eich enw'n *aml* yn yr Ymofynnydd a chylchgronau eraill. Beth yw lle yr Undodwr heddiw mewn byd a wnaed yn gymhleth i'r mwyafrif trwy effeithiau rhyfel, gormes, gor-ddiwydiant, materoldeb rhonc (*materialism*) a hunanoldeb ? Dyma fy ateb i, gyfaill. Y mae'r Undodwr yn ymgyrraedd yn uwch fel meddyliwr a gweithiwr mewn cymdeithas a chredaf fi fod dylanwad yr Undodwr, fel meddyliwr rhydd (*free thinker*) yn graddol wneud ei ôl ar feddyliau ein cyd-ddynion o'r enwadau eraill. Credaf hefyd fod yn ein gafael, fel enwad, y pwerau hynny sy'n angenrheidiol i droi pob cynllun Cristnogol ei natur yn weithgarwch mawr er adeiladaeth yr eglwys a chymdeithas. Dyma i ni gyfle hefyd fel aelodau o'r un eglwys yng Nghymru a Lloegr i gydweithredu yn fwy agos at ein gilydd ; i ddeall ein gilydd yn well ac i wneud ein henwad yn bwer arhosol er ffyniant cyd-ddyn a chenedl. Unwn ein pwerau personol gyda'r amcan hwn mewn golwg. Hoffem ni yng Nghymru weld lluoedd o fechgyn a merched ifainc Lloegr yn mynd ati i ddysgu'r iaith Gymraeg. Byddai hynny'n fantais i ieuenctid Lloegr i astudio a

deall ein llenyddiaeth ni—ac mae newid barn cystal a newid awyr. Fel Cymro, mentraf ddweud y bydd pob darllenydd o'r Ymofynnydd yn mawr edmygu eich camp chwi i feistroli'r iaith Gymraeg.

Ymsefydlwch, felly, yn ein plith fel llenor a chydweithiwr, ac, unwaith eto mawr ddiolch am eich cyfraniad diddorol i'n cylchgrawn a chroeso cynnes i'n horiel.

Penparcau, Aberystwyth. D. Ll. Carrellio-Morgan.

Annwyl Olygydd,—

Cyfeiriwyd yn rhifyn Awst o'ch misolyn at "Lythyrau Anna Beynon" (gyhoeddwyd yn Yr Ymofynnydd yn 1871) gyda'r awgrym, mewn cromfachau, y byddai yn "werth troi iddynt a chael cipolwg ar lannau Teifi yn yr hen amser". Ymddengys felly' eich bod chwi, fel eraill o'ch blaen, heb ddeall mai ysgrifau ffugiol ydynt oll, ac na ysgrifenwyd hwy yn sir Aberteifi nag un sir arall yng Nghymru. Ond yn llyfrgell gohebydd "Baner America" O'n blaen mae copi o lythyr ddanfonwyd gan Dr. Thomas Rees, Aberawe, awdur *The History of Protestant Nonconformity in Wales*" at y Parch. R. J. Jones, Aberdâr, dyddiedig Rhagfyr 21, 1882 yn yr hwn y cyhoeddir y ddcdfryd yn eglur ar y llythyrau hyn. Dyma ran ohono, er cywirdeb, yn yr iaith yr ysgrifenwyd ef : "After reading Anna Beynon's letters I thought of making liberal use of them until my friend W. D. Jeremy of London suggested that he thought they were forgeries. I could not believe that at first, but in order to be safe I wrote to my old friend Dewi Emlyn, Parisville (?), Ohio, who first published them in an American newspaper. He achnowledges that they are his composition, and that they are founded upon some traditions of the neighbourhood which he heard his mother relating. He intended them as a kind of woooo, and the few facts which they contain are so interspersed with his imaginary filling up that they cannot properly be referred to in a reliable history". Wel, dyna ysgyfarnog arall a redodd yn hir wedi ei dal. Gwelaf fod yr hen arwyddair, Rhyddid, Gwirionedd, Cariad, wedi llithro rywfodd o glawr Yr Ymofynnydd ond gobeithio fod lle i'r gwirionedd eto yn ei dudalenau er fod llawer o'r ffugiol wedi ymddangos ynddo yn ddiweddar.

SIMON JONES.

Collwyd y ' label ' Rhyddid, Gwirionedd, Cariad yn hollol anfwriadol gan yr artist a hynny heb orchymyn oddi wrth y Golygydd. Ond nid wrth y label am ei wddf y mae adnabod cylchgrawn, na dyn o ran hynny. Felly, y mae lle i wirionedd bob amser yn Yr Ymofynnydd. A dyma un gwirionedd i ddechrau : y mae llythyr Mr. Jones tua hanner can mlynedd ar ôl ei amser i'r neb a ddarllenodd *Y Geninen* am Ebrill 1907, tud. 144, ac nid oes ansicrwydd am Parisville y fan honno. Wedi darllen y nodyn hwnnw gan R.J.J. yr ysgrifennwyd y gair rhwng cromfachau a welir ar ddechrau "Sion Ifan Sion," Rhifyn Awst. Ni ddaliwyd ysgyfarnog felly, dim ond cysgod ! Bûm yn ofalus i beidio haeru fod y llythyrau yn ddogfennau dilys drwy ddweud fel yma, "a ddanfonwyd *meddir* gan un Anna Beynon . . ." Ni ddywedwyd y

ceid golwg lawn, hanesyddol chwaith—dim ond *cip-olwg* ar sut oedd pethau ar lannau Teifi gynt. Ceir ynddynt doreth o bethau gwir ddiddorol i'r hanesydd a fyn gribo'n fân ac am hynny yr wyf yn credu y dylid eu ail gyhoeddi—heb sôn am y ffaith eu bod yn darllen yn ddifyr tuhwnt. Ni ddeallaf y cyfeiriad at "*llawer o'r ffugiol*".—Gol.

P.S.—Y mae gwybodaeth bellach am 'Anna Beynon' a'r Awdur Dewi Emlyn yn Rhifynau Ion. a Gorff. 1914 o'r Geninen.

Annwyl Olygydd,—

Diddorol oedd yr hanes a roddwyd yn rhifyn Hydref o dan y pennawd "Y Troad Allan", ond gresyn ei fod mor amhendant. Heb inni gael gwybod pa drafodaeth ariannol a fu rhwng y Comisiwn Coedwigo a pherchennog fferm Dolgader, fe'n gadewir i ddyfalu pa beth a olygir wrth ddweud i'r Comisiwn 'gymeryd' dros bedwar can erw o dir y fferm fawr honno. Ai 'cymeryd' 450 o aceri o dir heb dalu dim amdanynt a olygir? Neu a dalwyd rhyw swm amdanynt? ac os felly, pa faint oedd honno? Rhy brin o fanylion ydyw'r hanes yn fy nhyb i, ar fater pwysig y drafodaeth ariannol, a hefyd ar bwnc aelodaeth y Comisiwn. Pwy yw'r aelodau sydd ar hwnnw? Bydd gwybod enwau y rheini yn help, efallai, inni ffurfio barn ar gymeriad y Comisiwn. Cytuna pawb mi gredaf, y dylid talu pris teg am dir a gymerir gan y Llywodraeth i blannu coed arno. Oni wnaethpwyd felly pan gymerwyd 450 o aceri allan o dir Dolgader, ffei o'r Comisiwn! Eithr os rhoddwyd amdanynt eu gwerth cyfreithiol, yn ariannol nid teg ydyw haeru i'r Comisiwn eu 'dwyn,' yn yr ystyr o'u lladrata, a ffei o'r neb a wna hynny!

"Dwyn ein tir"? Diau! ái nid haeriad—an-nheg
Iawn oedd, os bu taliad?
Llinell pwyll (hyn oll pwy wad?)
Yw bwrw'r pres fel bo'r prisiad.

Dol Ardd, Cwrtnewydd. CLEDLYN.

Diolch i Gledlyn am fywhau tipyn ar dudalennau'r Ymofynnydd drwy roddi barn arall, a chroeso iddi. Eithr credaf fod Cledlyn yn gwybod yn ddigon da beth a feddyliwn, ond fel y bydd ambell gadno cyfrwys yn twyllo'r cŵn oddi ar y trac, felly y gwna yntau yma! Y mae'r Comisiwn yn talu am y tir yn ddiamau ac ni thybiais fod angen sôn am hynny. Nid ymdrin â phris tir a materion ariannol yw diben Yr Ymofynnydd—gadawer hynny i'r *Economist* a'r *Farmers Weekly*. Mater o egwyddor a dybiwn i oedd yn bwysig, sef bod y Comisiwn yn cymeryd tir oddi ar amaethwr a hynny yn erbyn ewyllys yr amaethwr hwnnw. Beth petai rhyw Gomisiwn yn penderfynu cymeryd Dôl Ardd yn erbyn dymuniad y bardd, ei droi allan i'r heol a rhoi pris teg y farchnad am y tŷ a'r ardd. Onid dwyn oddi arno ei eiddo a fyddai hynny? Neu a yw Cledlyn yn ddigon o fardd i ddweud,

"Dwyn ein tir"? Diau! ai nid haeriad—an-nheg
Iawn oedd os bu taliad?

Yn wir gellid prynnu tŷ arall, gellir prynnu tir arall ond ni ellir prynnu cymdeithas arall a chyfeillion eraill sy'n adnabod a charu Cledlyn fel y gwna Cwrtnewydd mewn unman yn y byd. Un felly yw cartref ac nid oes bris yn y byd yn ddigon tâl amdano. Cofier hefyd fod llawer lliw ar y gair *dwyn* heblaw'r ystyr o ladrata.

"Dwyn ei geiniog dan gwynaw
Rhoi angen un rhwng y naw".

Nid lladrata a olygwyd yn y cwpled yma na chwaith mewn llawer man lle ceir yr un gair yn y Beibl, ac ystyr y dwyn a ddefnyddiais i oedd *cymeryd*, felly terfynnaf yn null hwylus Cledlyn ei hun,

Camarwain yw troi *cymeryd*—yn *ddwyn*
Ac ni ddaw fforna hefyd ;
Nid triw o beth yw troi byd
Yn wyrgam er mwyn ergyd ! GOLYGYDD.

ANNWYL OLYGYDD,—

DAETH rhifyn Hydref o'r YMOFYNNYDD i'm llaw, ac ynddo ysgrif ddiddorol iawn i bawb ar yr aelwyd hon yng Nghwmystradllyn, Eifionydd ; sef "Yr Antur Fawr o Ddysgu Cymraeg"—gan J. Raymond Hodkinson, B.Sc., Manceinion. Wrth weld eich nodyn Mr. Golygydd, ar ddiwedd yr ysgrif yn gwahodd gair gan fab neu ferch ieuanc i ddiolch i Raymond, cymhellir fi, er nad wyf aelod o'r Eglwys Undodaidd, i fanteisio ar eich gwahoddiad. Gan mai ar yr aelwyd hon yr arhosai Raymond. Pan yng Nghwmystradllyn cawsom fel teulu y pleser o'i adnabod, a llawer iawn o hwyl a hyfrydwch yn ei ymdrech selog i ddysgu Cymraeg. Enynnodd fwy-fwy ein balchter o'n Gwlad a'n Hiaith, a'n Traddodiadau wrth weled mab ieuanc o Sais yn teimlo cymaint o swyn a chyfaredd y pethau hyn. Y mae Raymond, o'i ddyweddi, yn gymeriad crefyddol, ac am hynny yn gallu gwerthfawrogi pethau gorau Cymru, a phob gwlad. Bu gyda ni yng Nghapel y Cwm yn yr Ysgol Sul ac yn y Bregeth. Hawdd canfod ei fod yn gwir fwynhau y pethau hyn. Da iawn fyddai i lawer o ieuenctyd Cymru ddilyn esiampl Raymond o wrando ar Wersi Cymraeg y Radio, a gwerthfawrogi etifeddiaeth gyfoethog ein gwlad, ein hiaith a'n llenyddiaeth. Pe cyfodai mil o ieuenctyd yng Nghymru o'r un ysbryd ac ymroad â Raymond Hodkinson, gwnai wahaniaeth mawr i fywyd gorau ein gwlad cyn pen deng mlynedd. Diolch i Raymond am ei esiampl a'i ysbrydiaeth inni. A brysied i Gwmystradllyn eto. Diolch i chwithau Mr. Golygydd am eich gwahoddiad i bobl ifainc i ysgrifennu. Gobeithio y bydd llawer yn anturio.

Maes Llech, Cwmystradllyn, GWENNIE WILLIAMS.
Garnddolbenmaen, Sir Gaernarfon.

Marwgofion.

Sul, Hydref 15, ar ôl cystudd maith a chaled, ELLEN ELIZA, annwyl briod Ex-Inspector T. H. Thomas, 4, Fir Street, Ferndale yn 75 oed. Gan fod ei phriod o ardal Talgarreg ac yn aelod ffyddlon yng Nghapel-y-Fadfa flynyddau'n ôl pan oedd yr amgylchiadau gartref yn ddymunol deuai Mrs. Thomas yn weddol fynych gyda'r teulu i'r ardal ar wyliau a gwnaeth lu o gyfeillion yn yr ardal. Deallwn hefyd ei bod yn fawr ei pharch ymhlith ei chymydogion yn Ferndale. 'Roedd o ysbryd siriol a charedig. Gadawodd ei phriod yr hwn sy'n gyfyngedig i'w gornel ers llawer blwyddyn, chwaer, dau fab a merch—y tri'n briod—i alaru ei cholli—collodd y priod gymhares ofalus a'r plant fam dirion. Cydymdeimlir yn fawr a hwynt yn enwedig y priod yr hwn oherwydd ei afiechyd ni all wneud drosto'i hun fel arfer. Y dydd Iau dilynol dygwyd ei gweddillion i fynwent Capel-y-Fadfa. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan Ficer y Plwyf ac yn y capel a'r fynwent gan E. O. Jenkins, D. Jacob Davies a Marles Thomas.

"Mae'n felys meddwl—wedi hyn
Cawn gwrddyd yn y nef.

Bu farw ANNIE DAVIES WYNNE, Medi 10fed diwethaf yn 56 oed. Priod annwyl Robert Wynne (gŵr adnabyddus i ddarllenwyr Yr Ymofynnydd) ydoedd. Aeth hi a'i phriod i Ganada yn 1924 ac o hynny hyd 1946 bu Mrs. Wynne yn unawdydd taledig yn un o eglwysi mwyaf yr United Church of Canada. Yn ei dydd yr oedd Mrs. Wynne yn un o gantoresau mwyaf Cymru yn boblogaidd iawn yng Ngogledd Cymru a chanolbarth Lloegr ; yr oedd yn hynod boblogaidd yn Llanybydder hefyd a bu yno droeon mewn cyngherddau. Fel ei gŵr Undodreg oedd, a cholled fawr i Gymru a Chanada oedd ei marwolaeth cynnar. Gadawodd un mab, Ifor, y sy'n Athro ym Mhrifysgol McMaster ac yntau hefyd yn Gymro Cymraeg. Cydymdeimlwn yn ddwys a'r tad a'r mab yn eu colled a'i galar.

Newyddion yr Enwad.

RHIFYN DANIEL OWEN.—Gwerthwyd nifer helaeth o'r rhifyn yma yn enwedig yng Ngogledd Cymru. Meddai un gŵr o sir Gaernarfon, "Ni chlywais am Yr Ymofynnydd erioed o'r blaen". Cafwyd order am chwe copi bob mis o'r flwyddyn nesaf gan lyfrwerthwr enwog o'r Gogledd. Aeth dau gopi i Goleg Harvard, America, ac fe gafwyd archebion o leoedd mor bell â Bodorgan, Sir Fôn ; Aldershot, Yr Wyddgrug, Harlech a Didcot.

Erys ychydig bach o gopïau yn unig os dymunwch roddi anrheg sylweddol i gyfaill. *Pwysig* : Ni argraffwyd nodyn ar ddechrau'r Traethawd a oedd yn darllen fel yma, "Cymerais y dyfyniadau o bum cyfrol ' Argraffiad Coffhaol ' o weithiau Daniel Owen a gyhoeddwyd gan Hughes a'i Fab, Gwrecsam yn 1899 ; o'r Siswrn", a gyhoeddwyd gan J. Ll. Morris, Yr Wyddgrug, yn 1886 ; a o Daniel Owen y Nofelydd, "a gyfansoddwyd ac a gyhoeddwyd gan Isaac Foulkes, yn Lerpwl yn 1903. Copiais y dyfyniadau fel yr argraffwyd hwy, heb newid dim ar yr orgraff na'r atalnodi : nid ydwyf yn cydweld a'r rhai ysfa arnynt i barieiddio nofelau Daniel Owen".

RHYDYGWIN A CHILIAU AERON.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch yn yr Eglwysi yma a'r Parch. Islwyn Pritchard, B.A., y Graig, Trebanos yn gwasanaethu. Yr oedd y cynulliadau yn lluosog a'r gwasanaethau yn gymwys i'r amgylchiad, ac yn ennyn diolchgarwch.

"OPERATION BUY".—Y flwyddyn nesaf cynhelir yr "International Religious Fellowship" yng ngwlad Swis ; ac ni ddylai diffyg arian atal ein pobl ifainc rhag medru mynd yno. Dyna yw *Operation Buy*—mudiad gan nifer o'n pobl ifainc yng Ngholeg yr Undodiaid, Manceinion i gasglu arian ac adnoddau i weld bod cyfle i rif go dda o'n ieuenctid o bob rhan allu mynd. Gofynnir am enwau rhai a garai fynd a cheisier am bob manylion oddi wrth Ronald McGraw, Unitarian College, Victoria Park, Manchester, 14.

"CORNEL Y CERDDOR".—Dyna fydd teitl cyfres newydd y flwyddyn nesaf ac fe'i sgrifennir gan gerddor adnabyddus. Bydd yn sgrifennu o dan enw ' Mws Bac ' am na all ddatguddio ei enw oherwydd ei fod yn dal swydd arbennig. Bydd croeso mawr i'r ysgrifennwyr newydd a chroeso mwy i'r hen bileri ddal yn ffyddlon. Diolch am eich cefnogaeth drwy 1950.

CAPEL-Y-FADFA.—Mae'n arfer gan y "Sunday School Association" i roi medal i'r rhai sydd wedi rhoi gwasanaeth mewn ysgol Sul am 25 mlynedd neu ragor. Ar ôl y gwasanaeth nawn Sul, Hydref 29, cyflwynwyd un o'r medalau hyn i Miss Margaret Davies tŷ'r Capel yn y lle hwn. Cyflwynwyd y Fedal iddi dros yr "Association" gan Miss S. A. Evans, Dedwyddfa, Llandysul, Ysgrifennydd Cymdeithas yr Ysgol Sul yng Nghymru, a chyflawnodd Miss Evans y gorchwyl mewn dull hynod o hapus ac effeithiol. Llongyfarchiadau cynnes i Miss Davies.

PANTYDEFAID A'R GRAIG.—Dëellir fod y Parch. J. Marles Thomas, M.A., Cefn, wedi derbyn yr alwad i weinidogaethu yn y ddwy eglwys yma.

Y Cwpwrth Llyfrau.

James Martineau, selections by Dr. Alfred Hall, Lindsey Press, 14, Gordon Square, London. 192 tud., pris 7/6.

Un o feddylwyr mawr y ganrif o'r blaen oedd Martineau, os nad y mwyaf, a detholiad deallus o drysorau ei holl weithiau yw'r llyfr hwn. Teimlir fod pob dyfyniad yn grwn ynddo'i hun a gwae i ni golli'r dyfnder crefyddol a feddai'r Undodwr hwn. Ni ellid anrheg well i Undodwr at y Nadolig.

Pilgrimage of Peace, gan George M. Ll. Davies (38, Gordon Square, London, W.C.1. 89 tud. ; pris 5/-.

Yr oedd deunydd sant yn George M. Ll., fel ei galwem, ac yn hanes ei bererindod daer dros heddwch fe'i cewch ar ei hoffusaf. Llafuriodd yn y Senedd, mewn carchar, yng nghanol y diwaith yn Rhondda a phwy ŵyr ymhle i gyd—ond waeth ble, heddwch cymod, brawdgarwch oedd ei neges. Llyfr gwerth ei brynu.

ATEBION I'R POSIS.

1 Merch ; 2 Gwniadur ; 3 Cneuen ; 4 Tegell ; 5 Godro ; 6 Eirinen ; 7 Hawdd ei gyfri ; 8 Bron hanner miliwn o bunnau ; 9 Hoelen mewn pedol ; 10 Dŵr ; 11 Pytaten ; 12 ' Bob ' oedd enw'r bachgen ; 13 Rhedynen o flaen gwynt ; 14 Dyn ac aradr a cheffyl ; 15 Dyn yn eistedd ar stôl yn bwyta troed mochyn a chi yn ei dwyn oddi arno ; 16 Eira ar fryn a'r haul yn goleuo arno ; 17 Pont ; 18 Dail Coed ; 19 Twll y Clo ; 20 Blwyddyn, misoedd, wythnosau, dyddiau ; 21 Crochan berwi.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf, Gwasg Gomer, Llandysul.

Defnyddiau Da
Crefftwaith Da

Yr ydym heddiw yn cadw ein henw da am ddeunydd a chrefftwaith a adeiladwyd gennym yn ystod yr 90 mlynedd diwethaf. Yn y cyfnod hwn sefydlwyd 35 o ganghennau drwy Gymru a Gorllewin Lloegr i wasanaethu gwŷr a'u meibion.

TAILORS SINCE 1866

HODGES AND SONS (CLOTHIERS) LTD.

WEDI EU TEILWRIO YNG NGHYMRU

The Llandyssul Agricultural Society Ltd.

LLANDYSSUL

Visit us before you buy your—

MANURES, FEEDING STUFFS, LIME, GRAIN, CORN, CONDIMENTS, SEEDS, HARDWARE, DRAPERY, GROCERY, CLOTHING, BOOTS AND SHOES, FURNITURE, ETC.

Deal at your own Society and thus save for yourself all middle profits

---

"Esplanade Cafe"

Proprietor—T. P. GRIFFITHS.

HIGH CLASS CONFECTIONER AND CATERER

MORNING COFFEE, LUNCHEONS AND HIGH TEAS

SMALL PARTIES CATERED FOR

"*Cefnogwch Undodwr*"

SEA FRONT : - : BARRY ISLAND

— COMMERCIAL AND GENERAL PRINTERS —

Within easy access to you if you reside in Glamorgan

Read the—

ABERDARE LEADER

(the paper which goes into every home in the Valley)

All enquiries—

PUGH & ROWLANDS, LTD.

ABERDARE LEADER OFFICES

ABERDARE

J. EDRYD STEPHENS & SONS

ELECTRICAL AND RADIO ENGINEERS

2A, BLUE STREET, CARMARTHEN

25 years experience in all classes of Electrical Undertakings

Recently installed in places of worship :—

FLUORESCENT AND ORDINARY LIGHTING

TUBULAR HEATERS

ORGAN BLOWERS

LIGHTING BY ELECTRIC MAINS AND BY PRIVATE PLANTS

Expert on FARM LIGHTING PLANTS

ENGINES, DYNAMOS, SWITCHBOARDS,
MOTORS, COOKERS, WASHING MACHINES,
REFRIGERATORS, ETC. ALWAYS IN STOCK

BEST MAKERS RADIO RECEIVERS ALWAYS IN STOCK

MODERN EQUIPMENT FOR RADIO REPAIRS

We employ an expert for every Job

FREE ADVICE AND ESTIMATES

The Shop for Value and Selection. Est. 1875.

E. R. DAVIES (L.S.O. Lond.) & SONS

Phone—3137

WATCHMAKERS
. . JEWELLERS . .
SILVERSMITHS

Private Room and Special Attention given to
Engagement and Wedding Parties.

LARGE SELECTIONS OF CUPS AND MEDALS.

1, Wind Street
Llandyssul . . . . Cards.